WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 11 Ebrill, 2013
Ein cyf: HVT/1860/fgb


Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd

**CYNNYDD O RAN CYRRAEDD SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)**

Ar 9 Tachwedd 2012, ysgrifennais atoch ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012 ar y *Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru*. Yn y llythyr hwnnw, nodais fod nifer o faterion yn codi o'r ymateb y gallai'r Pwyllgor fod wedi dymuno eu trafod gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodais hefyd y byddai'n fuddiol aros am yr ymateb a addawyd gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion yn fy adroddiad i ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth [ar y pryd] atoch ar 24 Ionawr 2013 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y camau a gymerir mewn ymateb i'r argymhellion yn fy adroddiad. Er bod yr ymateb hwnnw'n mynd i'r afael â rhai o'r materion a gwmpaswyd gan fy nghyngor blaenorol, mae hefyd yn codi cwestiynau newydd.

Yng ngoleuni'r materion hyn sydd heb eu datrys, a'r ffaith bod y dyddiad gwreiddiol ar gyfer cyrraedd SATC wedi mynd heibio bellach, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried neilltuo ychydig o'i amser cyn diwedd tymor yr haf i gael tystiolaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar y pwnc hwn, yn hytrach nag ailddechrau'r broses ohebu. Gallai ailedrych ar y mater hwn yn ddiweddarach yn ystod y tymor hwn fod yn amserol oherwydd, yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr ymatebion, dylai rhai datblygiadau allweddol fod yn tynnu at y terfyn, neu dylent fod wedi'u cwblhau, gan gynnwys:

- Casglu data ar gydymffurfiaeth â SATC fel ar 31 Mawrth 2013, gan roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried effeithiolrwydd mesurau i wella ansawdd data.
- Yr ymarfer gwerthuso arfaethedig ar gyfer SATC.
- Gwaith y Tasglu Gweinidogol a sefydlwyd i fynd i'r afael â chynnydd o ran cyrraedd SATC ymysg landlordiaid cymdeithasol penodol.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

- Trafodaethau gyda Thrysorlys EM ynghylch diwygio'r system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru. Rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu parhau â'i pholisi rhent presennol ar gyfer 2013-14 gyda'r nod o gysylltu'r broses diwygio rhenti â diwygio'r system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.
- Gwaith i nodi'r gofynion ehangach o ran data ar gyflwr tai ledled Cymru.
- Cynhyrchu canllawiau wedi'u diweddaru ar ofynion safon amgylcheddol SATC.

Byddai sesiwn dystiolaeth arall hefyd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor holi Llywodraeth Cymru ynghylch materion yn ymwneud â'i hymateb i'r argymhellion yn fy adroddiad i, gan gynnwys:

- Enghreifftiau ymarferol o sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r gwersi cyffredinol a ddysgwyd yn sgil datblygu polisi, monitro a gwerthuso.
- Y terfynau amser ar gyfer camau penodol. Er enghraifft, pam mae'n debygol o gymryd dwy flynedd ers cyhoeddi fy adroddiad i gwblhau trafodaethau gyda landlordiaid ar ymarferoldeb cyfuno amrywiol ffurflenni data (argymhelliad 3c), neu pam na allai fy argymhelliad (3b) ynghylch edrych ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau blaenorol yn ymwneud â chyrraedd y SATC fod wedi cael ei gyflawni eisoes fel rhan o brosesau cynllunio busnes 2012-13.
- Y cyfyngiadau o ran adnoddau sydd, i bob golwg, wedi arwain at ragor o oedi o ran ymateb i argymhellion a ddeilliodd o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol blaenorol ar fuddsoddiad cymunedol cynaliadwy mewn tai ac adfywio, ac unrhyw oblygiadau ehangach sy'n deillio o'r cyfyngiadau hyn ar adnoddau i feysydd polisi tai eraill. Yn ei lythyr at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2012, cydnabu'r Swyddog Cyfrifyddu na weithredwyd ar yr argymhellion mor gyflym ag y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i ddymuno.
- Y tu hwnt i ddefnyddio offeryn mesur manteision cymunedol Gwerth Cymru ar gyfer contractau gwerth mwy na £2 filiwn, sut y mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei disgwyliadau mewn perthynas â phob landlord tai cymdeithasol ynghylch casglu data am werth cyffredinol am arian a'r manteision ychwanegol yn sgil gwariant sy'n gysylltiedig â SATC. Mae'r fethodoleg manteision cymunedol yn annhebygol o grynhoi tystiolaeth yn ymwneud â'r holl fanteision ehangach posibl a amlygir yn fy adroddiad, fel gwell iechyd, gwell diogelwch a llai o ofn yn sgil troseddau, ac o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Pan ysgrifennodd y Swyddog Cyfrifyddu at y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2012, nododd fod y prosiect Hyrwyddo i Ymrwymo yn datblygu fframwaith fel sail i'r offeryn manteision cymunedol, a fyddai'n crynhoi'r manteision ehangach a gyflawnir y tu hwnt i gaffael, ond nid oes diweddariad arall ar ddatblygiad y fframwaith hwnnw yn ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor a'm hargymhellion i.

- P'un a yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw newidiadau arwyddocaol yn rhagdybiaethau cynllunio busnes landlordiaid ynghylch gwariant sy'n gysylltiedig â SATC yn y dyfodol o ganlyniad i rai o'r materion ansicr a amlygir yn fy adroddiad, gan gynnwys newidiadau i fudd-dal tai. Yn ei lythyr at y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2012, cydnabu'r Swyddog Cyfrifyddu fod Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch effaith bosibl newidiadau i fudd-dal tai ar lif refeniw landlordiaid cymdeithasol yn y dyfodol a bod grŵp llywio'n cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r materion a fydd yn codi yn sgil y newidiadau hyn.

Hyderaf y bydd y cyngor ychwanegol hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Efallai yr hoffai clercod y Pwyllgor gadarnhau a oes gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol gynlluniau i edrych ar faterion sy'n ymwneud â chyrraedd SATC yn y dyfodol agos.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**